Yr Adolygiad o Dirluniau Dynodedig yng Nghymru

Cylch Gorchwyl

Mae Gweinidogion Cymru eisiau sicrhau bod tirluniau dynodedig yn barod i wynebu'r heriau presennol a'r heriau yn y dyfodol, a'u bod yn dod yn enghreifftiau a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer cynaliadwyedd. Maent wedi comisiynu'r adolygiad hwn er mwyn ystyried a fydd y trefniadau presennol yn cyflawni'r amcanion hyn ac, os na fyddant, pa newidiadau ddylid eu gwneud er mwyn eu cyflawni. Bydd yr adolygiad yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid tirluniau dynodedig er mwyn archwilio, casglu ac asesu'r dystiolaeth gysylltiedig â dynodiad, pwrpas, nod a dull llywodraethu tirluniau dynodedig yng Nghymru.

Bydd yr adolygiad yn cael ei rannu'n ddau gam. Bydd cam un yn edrych ar y dynodiadau eu hunain a bydd cam dau yn dilyn, gan archwilio'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y tirluniau dynodedig yng ngoleuni argymhellion y cam cyntaf i Weinidogion Cymru.

Cam Un

- y manteision o gategoreiddio tirluniau dynodedig Cymru o dan un math o ddynodiad.
- pwrpas y tirluniau dynodedig hyn.

Cam Dau

- trefniadau llywodraethu a rheoli'r tirluniau dynodedig hyn.
- sut byddai unrhyw gorff/gyrff rheoli yn y dyfodol yn hybu cydweithredu a gweithio ar y cyd yn y ffordd orau, gan osgoi dyblygu.
- sut byddai unrhyw gorff rheoli yn y dyfodol yn cadarnhau atebolrwydd a phenderfyniadau lleol yn y ffordd orau.

Yn y tymor canolig i'r tymor hir, mae'n rhaid i'r trefniadau newydd alluogi i unrhyw gorff/gyrff sy'n rheoli ein tirluniau dynodedig yn y dyfodol ddatblygu a gwella eu galluoedd strategol, llunio polisi a chyflawni gweithredol ymhellach, gan arwain at y canlynol

i. Cyflawni pwrpas tirluniau dynodedig.
ii. Sicrhau bod rhinweddau arbennig tirlun dynodedig yn cael eu gwarchod.
iii. Gwneud y gorau o botensial yr ardaloedd hyn.
iv. Cefnogi cais Rheoli Cyfoeth Naturiol.
v. Dangos arferion da, yn enwedig o ran rheolaeth a chynaliadwyedd tirluniau.
vi. Datblygu ffyrdd clir a chyson o gydweithredu.
vii. Sicrhau arweiniad cenedlaethol a'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau.
viii. Osgoi dyblygu a gwneud y defnydd gorau posib o arbenigedd prin.
ix. Cadarnhau atebolrwydd a phenderfyniadau lleol.

Nid yw Gweinidogion Cymru wedi penderfynu eto ar safbwynt ynghylch a ddylai Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol gadw swyddogaethau cynllunio. Gwneir penderfyniad ar wahân ynghylch hynny. Bydd Cam 2 yr adolygiad yn ystyried hynny ar ôl dod i benderfyniad.

Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru

Cam Un

Rhagair

Mae dau fath o dirwedd ddynodedig yn cyfrif am oddeutu chwarter Cymru. Mae ugain y cant o'r dirwedd yn Barciau Cenedlaethol ac mae'r pump y cant sy'n weddill yn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae'r ddau ddynodiad yn hanu o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Mae dau ddiben statudol i Barciau Cenedlaethol:

- gwarchod a gwella o harddwch naturiol yr ardal, ei bywyd gwyllt a'i threftadaeth ddiwylliannol,
- hybu cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardal.

Un pwrpas statudol sydd i Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, sef:

- gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardal.

Gellir dweud bod gwahanol "haenau" i Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn y drefn tirweddau dynodedig. Mae hyn oherwydd nifer o ddibenion statudol, maint daearyddol a threfniadau llywodraethu.

Yr un statws sydd i Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn nhermau harddwch eu tirwedd a'u golygfeydd. Mae hyn yn cael ei nodi ym mhwynt 5.3.6 *o* Bolisi Cynllunio Cymru.

Mae'r ddyletswydd gyfreithiol ar "awdurdodau perthnasol" Parciau Cenedlaethol (o dan adran 62(2) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995) a'r ddyletswydd gyfreithiol sydd ar awdurdodau perthnasol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (o dan adran 85(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000) yn union yr un fath.

Mae Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn denu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn ac yn wynebu'r un math o bwysau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

Hefyd, mae'r tirweddau dynodedig yn bodloni safonau sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol. Mae'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur yn cydnabod dau fath o dirweddau dynodedig fel ardaloedd gwarchodedig Categori 5.

Yn y dyfodol, disgwylir y bydd tirweddau dynodedig yn rheoli adnoddau naturiol ac yn ceisio cyrraedd y chwe nod llesiant a nodir ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru):

Nod	Disgrifiad
Cymru lewyrchus.	Economi arloesol a chynhyrchiol, gydag allyriadau carbon isel, sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon a chymesur; ac sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd am gyflogaeth ar gyfer poblogaeth fedrus ac addysgedig.
Cymru gydnerth.	Amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynorthwyo cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd a'r gallu i addasu i newid.
Cymru iachach.	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal.	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.
Cymru o gymunedau cydlynus.	Cymunedau atyniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Mae pum mlynedd a thrigain wedi mynd heibio ers i'r ddeddfwriaeth a greodd y dynodiadau gwreiddiol gael Cydsyniad Brenhinol. Mae Gweinidogion Cymru am sicrhau bod ein tirweddau dynodedig yn ddigon cydnerth i fodloni'r heriau presennol a heriau'r dyfodol, gan gadw'u hynodrwydd a datblygu'n enghreifftiau rhyngwladol o gynaliadwyedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad i ystyried p'un a yw'r trefniadau presennol yn mynd i gyflawni'r nodau hyn, ac os nad ydynt yn ddigonol, pa newidiadau a ddylid eu gwneud er mwyn eu cyflawni. Yng nghwrs yr adolygiad, cynhelir trafodaethau â'r cyhoedd a rhanddeiliaid tirweddau dynodedig er mwyn casglu tystiolaeth mewn perthynas â dynodi tirweddau dynodedig yng Nghymru, eu diben, eu nod a'r ffordd y maent yn cael eu llywodraethu, archwilio'r dystiolaeth honno a'i hasesu.

Rhennir yr adolygiad yn ddwy ran. Bydd Cam Un yn edrych y posibilrwydd o alinio'r dynodiadau a'u dibenion , a Cham Dau yn edrych ar drefniadau llywodraethu tirweddau dynodedig yng Nghymru. Bydd trywydd y cwestiynau yng Ngham Dau yn cael eu datblygu yng ngoleuni'r argymhellion a gyflwynir i Weinidogion Cymru ar ddiwedd Cam Un.

Cwestiynau ar gyfer Cam Un

1	**A yw'r tirweddau dynodedig yn gallu bodloni anghenion presennol Cymru a'i hanghenion yn y dyfodol?**
	Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn meddyliwch am y pwyntiau isod: Cryfderau a gwendidau'r system bresennol o ran dibenion tirweddau dynodedig a'r dyletswyddau statudol presennol sy'n ymwneud a hwy. Yr heriau a'r cyfleoedd posibl sy'n wynebu tirweddau dynodedig Cymru. P'un a yw'r dibenion statudol presennol ar gyfer tirweddau dynodedig neu'r dyletswyddau statudol sydd ar gyrff rheoli yn gallu mynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n eu hwynebu yn ogystal â'r heriau a fydd yn eu hwynebu yn y dyfodol. P'un a oes angen dibenion newydd neu ddibenion diwygiedig i wella potensial arloesol tirluniau dynodedig. Enghreifftiau o ddibenion statudol/deddfwriaethol arloesol a/neu nodau tirweddau dynodedig y tu allan i Gymru.
2	**A ddylai bod un dynodiad ar gyfer tirweddau gwarchodedig yng Nghymru?**
	Wrth ymateb i'r cwestiwn hwn meddyliwch am y pwyntiau isod: Manteision ac anfanteision y system bresennol o ddwy haen ar gyfer dynodi tirwedd yn statudol gan fod rhai agweddau ar y dynodiadau presennol fwy neu lai'n union yr un fath. P'un a fyddai un dynodiad yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac arbenigedd prin; yn fwy effeithlon ac yn gwella cydweithio a chydlyniant ledled Cymru, gan barhau i roi'r un lefel o warchodaeth i'r tirweddau dynodedig hyn. Y goblygiadau o gael un dynodiad o ran y safonau cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer tirwedd a chadwraeth. Eich profiad chi/profiad eich sefydliad mewn perthynas ag un o'r dynodiadau neu'r ddau ddynodiad. Enghreifftiau o alinio dynodiadau y tu allan i Gymru a'r gwersi sydd i'w dysgu.